

Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 144(8ZA) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2016 Rhif (Cy.)

**Y GYFRAITH
GYFANSODDIADOL**

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Gorchymyn Deddf Llywodraeth
Cymru 1998 (Comisiwn Ffiniau a
Democratiaeth Leol Cymru)
(Diwygio) 2016**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio paragraff 4 o Atodlen 17 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, drwy newid disgrifiad un o'r cyrff a restrir yn yr Atodlen honno. Mae'r cyfeiriad at Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi ei ddiwygio er mwyn cyfeirio at Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Mae hyn yn dilyn ailenwi'r corff corfforaethol hwnnw o dan adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 144(8ZA) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2016 Rhif (Cy.)

**Y GYFRAITH
GYFANSODDIADOL**

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Gorchymyn Deddf Llywodraeth
Cymru 1998 (Comisiwn Ffiniau a
Democratiaeth Leol Cymru)
(Diwygio) 2016**

Gwnaed

Yn dod i rym

7 Hydref 2016

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 144(8)(c)(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn(2).

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo yn unol ag adran 144(8ZA)(3) o'r Ddeddf honno.

-
- (1) Breiniwyd y pŵer i wneud gorchymyn o dan adran 144(8)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn wreiddiol yn yr Ysgrifennydd Gwladol ond diwigiwyd adran 144(8) gan baragraff 45(7)(a) o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn rhoi Gweinidogion Cymru yn lle'r Ysgrifennydd Gwladol.
- (2) 1998. p. 38.
- (3) Ychwanegwyd is-adran (8ZA) o adran 144 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 gan baragraff 45(8) o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru) (Diwygio) 2016.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Hydref 2016.

Diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 1998

2. Ym mharagraff 4 o Atodlen 17 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn lle "Local Government Boundary Commission for Wales" rhodder "Local Democracy and Boundary Commission for Wales".

Enw

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth
Leol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad